# Cais am Gyfrif Cynilo Ieuenctid

SWANSEA BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

**At ddefnydd unigolion preifat a leolir yng Nghymru yn unig.**

**Pwysig:** Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch yr amodau penodol ar gyfer pob un cyfrif rydych chi'n ei hagor a'r daflen "Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Gweithredu Cyfrifon Cynilo' os gwelwch yn dda. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth bwysig am eich cyfrif gyda'r Gymdeithas. Yn ogystal, darllenwch y ffurflen 'Profi eich Hunaniaeth'. Llenwch y ffurflen hon mewn INC DU gan ddefnyddio LLYTHRENNAU BRAS ac yna darllenwch a llofnodwch y Datganiad ar y cefn. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch os gwelwch yn dda â'ch swyddfa gangen leol (manylion cyswllt ar www.swansea-bs.co.uk).

| **At ddefnydd y Gymdeithas yn unig** | Rhif cyfrif | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

# Gwybodaeth am y Cyfrif

| IHoffwn agor y cyfrif â | £ | | Gwnewch sieciau'n daladwy i enw deiliad y cyfrif |
|---|---|---|---|

| Nodwch y cyfarwyddiadau llofnodi: Plentyn yn unig (11+); Rhiant / Gwarcheidwad a Phlentyn (11+); Naill ai Rhiant / Gwarcheidwad neu Blentyn (11+); Rhiant / Gwarcheidwad yn unig | |
|---|---|

# Deiliaid y Cyfrif

## Ymgeisydd

Rhaid i fanylion yr ymgeisydd ddangos y plentyn yr agorir y cyfrif yn ei enw.

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n gwsmer presennol (Y/N) | |
| Teitl (Mr/Mrs/ac ati) | |
| Enw(au) Cyntaf yn llawn | |
| Cyfenw | |
| Cyfeiriad Presennol | |
| | |
| Cod Post | Cyfnod yn y cyfeiriad B B M M |
| Cyfeiriad Blaenorol<br>*Peidiwch â llenwi oni bai eich bod wedi byw yn eich cyfeiriad presennol am lai na 3 blynedd* | |
| | Cod Post |
| Dyddiad Geni | D D / M M / B B B B |
| Ffôn cartref (+ Cod) | |
| Ffôn gwaith (+ Cod) | |
| Ffôn symudol (+Cod) | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| Cenedligrwydd | |
| Ydych chi'n preswylio i bwrpasau treth yn unrhyw le heblaw am y DU? (Y/N) | |
| Ydych chi'n ddinesydd y DU yn unig? (Y/N) | |
| Galwedigaeth os yw'r plentyn dros 16 oed | |
| Cyflogwr os yw'r plentyn dros 16 oed | |
| Rheswm dros agor y cyfrif | |
| Ffynhonnell yr adnau agoriadol / arian i'r dyfodol | |
| Pa mor aml y disgwylir defnyddio'r cyfrif? | |
| Perthynas i'r Rhiant/Gwarcheidwad | |

## Rhiant/Mam-gu neu Dad-cu/Gwarcheidwad

Rhaid cwblhau manylion y rhiant/gwarcheidwad ymhob achos ar gyfer ymgeiswyr sy'n iau na 16 oed.

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n gwsmer presennol (Y/N) | |
| Teitl (Mr/Mrs/ac ati) | |
| Enw(au) Cyntaf yn llawn | |
| Cyfenw | |
| Cyfeiriad Presennol | |
| | |
| Cod Post | Cyfnod yn y cyfeiriad B B M M |
| Cyfeiriad Blaenorol<br>*Peidiwch â llenwi oni bai eich bod wedi byw yn eich cyfeiriad presennol am lai na 3 blynedd* | |
| | Cod Post |
| Dyddiad Geni | D D / M M / B B B B |
| Ffôn cartref (+ Cod) | |
| Ffôn gwaith (+ Cod) | |
| Ffôn symudol (+Cod) | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| Cenedligrwydd | |
| Ydych chi'n preswylio i bwrpasau treth yn unrhyw le heblaw am y DU? (Y/N) | |
| Ydych chi'n ddinesydd y DU yn unig? (Y/N) | |
| Galwedigaeth os yw'r plentyn dros 16 oed | |
| Cyflogwr os yw'r plentyn dros 16 oed | |
| Rheswm dros agor y cyfrif | |
| Ffynhonnell yr adnau agoriadol / arian i'r dyfodol | |
| Pa mor aml y disgwylir defnyddio'r cyfrif? | |
| Perthynas i'r Ymgeisydd | |

Ychwanegir llog i'r cyfrif pob hanner flwyddyn

# Cofrestru Cyfrif Banc Enwebedig

Llenwch yr adran hon dim ond os nad ydych eisoes wedi cofrestru Cyfrif Banc Enwebedig gyda'r Gymdeithas

**Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio fod y manylion banc a restrir isod yn gywir, am y gall unrhyw gamgymeriadau arwain at fethu â phrosesu eich taliad. Rydych chi'n cadarnhau drwy lofnodi drosodd fod y manylion banc a roddwyd yn gywir, a'ch bod chi'n deall mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod yr wybodaeth a roddir yn gywir, a phe bai'r manylion uchod y anghywir, nad yw'r Gymdeithas yn gyfrifol am unrhyw golledion o ganlyniad.**

## Manylion Cyfrif Enwebedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Cwsmer | | Enw Deilia(i)d y Cyfrif | |
| Cod Didoli | ☐☐ - ☐☐ - ☐☐ | Rhif y Cyfrif | ☐☐☐☐☐☐☐☐ |
| Enw'r Banc | | Enw'r Gangen | |

**Ticiwch y blwch ar ddiwedd y frawddeg hon i gadarnhau eich bod wedi rhoi manylion eich rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost ar dudalen 2 os gwelwch yn dda, a'ch bod wedi darparu gyda'r ffurflen hon gopi o ddatganiad banc ar gyfer y cyfrif banc enwebedig uchod sy'n rhoi manylion enw'r cyfrif, y cod didoli a'r cyfrif banc ar gyfer y cyfrif banc a enwebir uchod.** ☐

# Cofrestru ar lein

**Ticiwch y bocs os hoffech gofrestru ar gyfer gwasanaeth bancio ar-lein y Gymdeithas. Sylwch yr anfonir e-bost atoch gan y Gymdeithas yn rhoi manylion eich rhif cyfrif a dolen i dudalennau cofrestru ar-lein y Gymdeithas, er mwyn i chi allu cofrestru ar-lein. (Noder, os ydych wedi cofrestru cyfrif banc enwebedig uchod, bydd yn rhaid i chi ddal i gofrestru'r cyfrif hwnnw pan fyddwch yn cwblhau'r broses gofrestru ar-lein.)**

# Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

☐ Rwyf i / rydym ni yn cydnabod derbyn y daflen wybodaeth sy'n berthnasol i Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol

# Datganiad

**Rwy'n datgan ac yn cytuno:**
(a) Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen:
  (i) unrhyw lenyddiaeth farchnata sy'n berthnasol i'r cyfrif yr wyf yn ei hagor a
  (ii) 'Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Gweithredu Cyfrifon Cynilo' ac yn cytuno i gael fy rhwymo ganddynt a chan Reolau'r Gymdeithas (y gellir cael copïau drwy ofyn amdanynt) ac unrhyw Delerau ac Amodau a Rheolau olynol ar gyfer y cyfnod sydd mewn grym.
b) Agorir y cyfrif yn enw'r Ymgeisydd yn unig, sef unig berchennog manteisiol unigol pob arian a ddelir neu a fuddsoddir yn y cyfrif ac o bob difidend neu log sy'n crynhoi yno dan bob amgylchiad. Rhaid i unrhyw arian a godir o'r cyfrif gael ei ddefnyddio er budd unigol deiliad y cyfrif.
c) Mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth.

**Eich gwybodaeth bersonol:**
Mae angen i ni gasglu gwybodaeth amdanoch chi er mwyn agor a gweinyddu eich cyfrif cynilo. Y sail gyfreithiol y byddwn ni'n prosesu eich data arno fydd un neu fwy o blith: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i ni ddarparu'r cynnyrch ariannol i chi a geisiwch' mae'n angenrheidiol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol; mae yn ein diddordeb busnes cyfreithlon yng nghyd-destun pwrpasau o'r fath neu gyda'ch cydsyniad chi.

- I bwrpas deddfwriaeth diogelu data, y Gymdeithas yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am brosesu'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi. Mae gennych hawliau amrywiol o ran eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys yr hawl i ofyn am gopi o'r manylion a gedwir amdanoch chi gan y Gymdeithas a, ble bo'n ofynnol, i unrhyw wybodaeth anghywir amdanoch i gael ei gywiro.
- Os byddwch chi'n gwneud cais ar y cyd gyda'ch cymar, eich partner, aelod o'ch teulu neu barti arall, bydd angen i ni hefyd gasglu gwybodaeth bersonol am y person hwnnw. Os byddwch chi'n gwneud cais ar y cyd ar ran y cyd-ymgeisydd, byddwch chi'n cytuno i ddangos ein Hysbysiad Preifatrwydd Cryno iddynt, a bod gennych ganiatâd angenrheidiol i'ch galluogi i roi gwybodaeth amdanynt i ni.
- Defnyddir yr wybodaeth a gesglir gennym i wirio eich hunaniaeth, gweinyddu eich cyfrifon, eich darparu â'n gwasanaethau a chyfathrebu gyda chi am gynnyrch neu wasanaeth arall y barnwn allai fod o ddiddordeb i chi.
- Pan fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth, mae'n bosib y gallwn hefyd rannu gwybodaeth ag unrhyw un y byddwch chi'n eu penodi i weinyddu neu weithredu eich cyfrif; cyrff rheoleiddio a llywodraeth; archwilwyr; unrhyw unigolion / sefydliadau y defnyddiwn ni i ddarparu gwasanaethau i ni; ac unrhyw bersonau neu sefydliad arall os yw'r gyfraith, dyletswydd gyhoeddus neu ein diddordebau cyfreithlon yn gofyn arnom i wneud hynny.
- Byddwn ni'n ymgymryd â gwiriadau amdanoch chi gydag Asiantaethau Atal Twyll ('FPAs') i bwrpasau atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio eich hunaniaeth. Os amheuir fod gwybodaeth yn anghywir neu'n wallus neu bod twyll yn digwydd, yna byddwn ni'n cofnodi hyn ac yn rhannu'r wybodaeth â FPAs.
- Drwy wneud eich cais rydych chi'n cydnabod eich bod wedi derbyn a darllen crynodeb o'n Hysbysiad Preifatrwydd llawn a gynhwysir yn ein taflen "Hysbysiad Preifatrwydd Cryno". Gellir cael ein Hysbysiadau Preifatrwydd llawn o bob un o'n swyddfeydd ac ar ein gwefan: **www.swansea-bs.co.uk/privacy-information**

**Derbyn gohebiaeth**
Er mwyn galluogi'r Gymdeithas i leihau'i hôl-troed carbon, bydd cwsmeriaid yn derbyn gohebiaeth yn awtomatig gan y Gymdeithas dros e-bost a nodir mai'u dewis ddull o gyfathrebu fydd e-bost (mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ddefnyddio dull arall os oes angen). Deallaf y gallaf newid fy meddwl ar unrhyw adeg a gwneud cais i BEIDIO Â derbyn gwybodaeth o'r fath dros e-bost yn unig drwy ymweld ag unrhyw un o swyddfeydd cangen y Gymdeithas neu drwy'u ffonio (gellir gweld manylion cyswllt ar www.swansea-bs.co.uk) neu drwy e-bostio **dpo@swansea-bs.co.uk**.

(Pan fydd cwsmer wedi cofrestru i gael mynediad ar lein gyda'r Gymdeithas, ni allant newid hyn oni bai dan amodau eithriadol, a byddant yn derbyn cyfathrebiadau'n awtomatig gan y Gymdeithas dros e-bost.)

Nodwch os gwelwch yn dda fod yn rhaid i'r cyfeiriad e-bost a roddir fod yn gyfeiriad e-bost personol deiliad (deiliaid) y cyfrif yn hytrach na chyfeiriad e-bost aelod o'r teulu neu e-bost gwaith.

Pan nad oes gan gwsmer gyfeiriad e-bost personol, neu os na allwn ni gysylltu dros e-bost, anfonir gohebiaeth drwy'r post.

**Rhoi gwybod i chi'n rheolaidd am Gynnyrch a Gwasanaethau eraill**
Hoffai'r Gymdeithas ddarparu gwybodaeth i chi am ein cynnyrch a'n gwasanaethau dros e-bost neu'r ffôn oni bai eich bod chi'n optio allan o dderbyn yr wybodaeth hon. Nodwch os gwelwch yn dda y bydd y Gymdeithas yn parhau i ddarparu cyfathrebiadau rheoleiddiol a gwasanaeth hyd yn oed os ydych chi wedi dewis optio allan.

Deallaf y gallaf newid fy meddwl ar unrhyw adeg a gwneud cais i BEIDIO Â derbyn gwybodaeth o'r fath dros e-bost, dim ond drwy ymweld ag unrhyw un o swyddfeydd cangen y Gymdeithas neu drwy'u ffonio (gellir gweld manylion cyswllt ar **www.swansea-bs.co.uk**) neu drwy e-bostio **dpo@swansea-bs.co.uk**.

# Dewisiadau Marchnata

Hoffai'r Gymdeithas roi gwybodaeth i chi am ein cynnyrch a'n gwasanaethau oni bai eich bod yn optio allan o dderbyn y wybodaeth hon. Sylwch y bydd y Gymdeithas yn parhau i ddarparu cyfathrebiad rheoleiddiol a gwasanaeth i chi hyd yn oed pan fyddwch wedi optio allan. Os hoffech dderbyn y wybodaeth hon, a fyddech cystal â dewis sut drwy dicio'r holl flychau sy'n berthnasol isod.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgeisydd Cyntaf | ☐ Ebost | ☐ Llythr | ☐ Ffôn | ☐ SMS | Ail Ymgeisydd | ☐ Ebost | ☐ Llythr | ☐ Ffôn | ☐ SMS |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (Ymgeisydd ) Llofnodwyd | | Dyddiad | D D / M M / B B B B |
| (Rhiant/Gwarcheidwad) Llofnodwyd | | Dyddiad | D D / M M / B B B B |

# At ddefnydd y Gymdeithas yn unig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y Cyfrif | | Rhif(au) Cwsmer | |
| Rhif Cyfrif | ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐ | Sganiwyd | |
| Llythrennau | | Dyddiad | D D / M M / B B B B |